# Ysgolion yr 21ain Ganrif

Y daith o'r dechrau i'r diwedd...



# Ble wnaethon ni ddechrau

Lansiwyd rhaglen adeiladu Ysgolion yr 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru yn 2010. Ei diben yw sicrhau fod ysgolion yng Nghymru yn gallu bodloni anghenion nawr ac yn y dyfodol.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yma i wneud yn siŵr bod Conwy yn lle gwych i blant fyw a mynd i'r ysgol. Mae hwn yn gyfle gwych i edrych ar adeiladau ein hysgolion a'u gwella.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod ein holl adeiladau ysgol:

- yn addas i'r diben
- yn cynnig digon o leoedd i fodloni'r galw
- yn iach a llewyrchus
- yn meddu ar safonau uchel
- yn cadw disgyblion yn ddiogel

Mae plant yn dysgu mewn byd sy'n newid drwy'r amser. Byd gyda chyfleoedd a heriau. Byd gyda phroblemau newydd sy'n gofyn am sgiliau newydd a ffyrdd newydd o feddwl i'w datrys.

**Rydym angen adeiladau a chyfleusterau ysgol sy'n annog dysgu a thwf.**

**Ysgolion sy'n lleoedd iach ac yn rhoi'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion ar gyfer eu dyfodol.**



# Beth rydym wedi'i wneud hyd yma

Mae'r rhaglen buddsoddi wedi'i rhannu'n 'Fandiau'.
O 2014-2019 cawsom arian **Band A**.

Fe wnaethom ei ddefnyddio i adeiladu:

**Ysgol Dyffryn yr Enfys** – Ysgol Gynradd newydd yn Nolgarrog fydd â chapasiti ar gyfer **120** o ddisgyblion. Bydd yn agor yn 2019.

**Ysgol Awel y Mynydd** – Ysgol Gynradd newydd yng Nghyffordd Llandudno. Mae ganddi gapasiti ar gyfer **432** o ddisgyblion a **60** o ddisgyblion meithrin rhan amser. Gellir dysgu'r disgyblion yma mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Gymraeg ail iaith / dwyieithog.

**Ysgol Nant y Groes** – Ysgol Gynradd newydd ym Mae Colwyn. Mae ganddi gapasiti ar gyfer **316** o ddisgyblion a **24** o leoedd meithrin.

**Ysgol Swn y Don** – Ysgol Gynradd newydd ar hen safle Ysgol Tan y Marian. Mae ganddi le ar gyfer **150** o ddisgyblion.



# Lle rydym ni nawr

Mae cyllid **Band B** ar gael nawr. Mae'n rhedeg o Ebrill 2019 i 2024.

Mae ganddo gyfalaf o £600m a £100m o refeniw y flwyddyn ar gael ledled Cymru.

## Gall Conwy gael £43 miliwn o hwn.

Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r arian hwn yn y ffyrdd gorau ac yn y mannau lle y bydd yn gwneud y lles mwyaf.

Felly, rydyn ni'n cynnal digwyddiadau **ymgysylltu cynnar** ar draws Conwy i ddarganfod beth mae athrawon, llywodraethwyr, rhieni, disgyblion a'r gymuned yn feddwl mae eu hysgolion eu hangen.

### Pam?

**Rydych chi'n adnabod eich ardal, rydych chi'n gwybod beth yw'r problemau ac mae gennych syniad da o'r hyn sydd angen digwydd.**

Gall y wybodaeth hon wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r effaith y gall y cyllid hwn ei wneud.



# Lle rydyn ni'n mynd


Mae 9 ardal prosiect wedi'u nodi ar gyfer y cyllid hwn.



# Beth yr ydym am ei wybod

Mae yna lawer o bethau i feddwl amdanynt wrth benderfynu sut i wella adeilad ysgol:

- Defnydd cymunedol o'r adeilad
- Anghenion dysgu ychwanegol
- Cael lleoedd iach, lliwgar, diogel i ddisgyblion ddysgu
- Atgyweiriadau sydd angen eu gwneud
- Estyniadau neu adeiladau ysgol newydd
- Adeiladau clyfar – materion amgylcheddol ac effeithlonrwydd
- Trafnidiaeth – materion parcio – man gollwng
- Ardaloedd dysgu yn yr awyr agored
- Materion diogelu
- Llwybrau beicio a cherddded i'r ysgol
- Materion hygyrchedd
- Cael gwasanaethau a allai helpu teuluoedd fel clwb brecwast neu glwb ar ôl ysgol
- Niferoedd dosbarth
- Cynllun yr ystafell ddosbarth, maint a hyblygrwydd
- Cael gofod i ymestyn a thyfu os oes angen



# Beth sy’n digwydd nesaf?

Mae newid yn cymryd amser.

**Rydym yma:**

**Digwyddiadau Ymgysylltu Cynnar.**

## Casglu a chyflwyno’r dystiolaeth

Rydym yn ystyried yr holl wybodaeth, gan gynnwys eich adborth ac yn cyflwyno’r holl opsiynau i Gabinet a Phwyllgor Craffu Conwy. Mae’r Cabinet yn penderfynu ar yr opsiwn maen nhw’n ei ffafrio ar gyfer pob ardal prosiect.

## Ymgynghori

Dyma gyfle arall i chi gymryd rhan. Byddwn yn cyflwyno’r opsiwn sy’n cael ei ffafrio ac yn ymgynghori ag athrawon, llywodraethwyr, rhieni, disgyblion a’r gymuned. Mae hwn yn gyfle i sicrhau nad ydyn ni wedi gadael unrhyw beth pwysig allan.

## Cymeradwyo

Byddwn yn ystyried yr adborth i gyd ac yn llunio adroddiad ar gyfer Cabinet Conwy. Byddant yn cymeradwyo’r opsiwn terfynol.

## Dechrau adeiladu ar gyfer y dyfodol.

Mae’r gwaith yn dechrau gyda dylunio, arolygon, proses dendro, penodi contractwr ac yna adeiladu.



# Sut i gymryd rhan

Er mwyn i'ch syniadau gael eu hystyried o ganlyniad i ymgysylltu cynnar, rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig.

Defnyddiwch yr **holiadur** i ddweud wrthym beth yr ydych yn ei feddwl ddylai ddigwydd yn eich ardal:
www.conwy.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif

I roi barn a sylwadau pellach neu i roi adborth ar y digwyddiadau ymgysylltu cynnar hyn anfonwch **e-bost**:
moderneiddio.ysgol@conwy.gov.uk

I ddysgu mwy am ddigwyddiadau yn eich ardal neu i ddarllen mwy am yr hyn a wnaethom gyda Band A a beth yr ydym fwriadu ei wneud yn Band B ewch i:
www.conwy.gov.uk/ysgolionyr21ainganrif

Conwy – **yr amgylchedd iawn ar gyfer dysgu a chyflawni.**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Ysgolion yr 21ain Ganrif
21st Century Schools

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

